

Patrwm cyflwyno: O fis Tachwedd i fis Ebrill

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r deunydd yn y modiwl hwn wedi cael ei ddisgrifio gan rai fel 'rheoli ar steroidau'. Mae'r modiwl hwn yn ymwneud ag achosi newid system gyfan. Mae TB872 yn gweld newid fel rhan anochel o reoli sefyllfaoedd bob dydd sy'n amrywio o sefyllfaoedd personol i rai yn y gweithle a chymdeithas yn gyffredinol. Yn hytrach na derbyn newid yn oddefol, bydd y modiwl hwn yn rhoi'r sgiliau y bydd eu hangen arnoch i lunio natur a chyfeiriad newid. Bydd yn datblygu eich galluoedd i reoli newid gydag eraill er mwyn osgoi methiannau systemig a gwella gweithredoedd cydgysylltiedig ymysg rhanddeiliaid ar hyd cadwyni cyflenwi, mewn prosiectau, neu mewn perthynas â gweithredu cymdeithasol hyd yn oed. Mae'n ymwneud â dysgu sut i ddefnyddio meddylfryd systemau yn ymarferol i'ch helpu i ymgysylltu a gwneud newidiadau, a gweithredu'n briodol er mwyn cydnabod natur ryng-gysylltiedig sefydliadau ac amgylcheddau.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ynghyd â manyleb [gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- Gwybodaeth am faes meddylfryd systemau ar waith a'r gallu i ddefnyddio syniadau a chysyniadau'r maes i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd proffesiynol a phersonol.
- Profiad o ddefnyddio meddylfryd systemau yn ymarferol i reoli neu ddylanwadu ar newid.
- Dealltwriaeth dda o'r amrywiaeth o draddodiadau Systemau a'r prif nodweddion tebyg/gwahanol rhwng dulliau gweithredu systemau o'r traddodiadau gwahanol hyn
- Gwybodaeth am ymholi systemig ac ymchwil weithredu systemig.
- Y gallu i ymgysylltu â'r modiwl fel dysgwr yn ogystal â hwyluso proses ddysgu eraill;
- Y gallu i greu amgylchedd dysgu diogel i fyfyrwyr sy'n debygol o gael eu herio gan ddeunyddiau'r modiwl
- Ymwybyddiaeth o'ch traddodiadau eich hun o ddeall a damcaniaeth newid a bod yn agored i draddodiadau pobl eraill.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad o helpu eraill i gyfrannu at newid cymdeithasol cadarnhaol;
- gwerthfawrogiad o'r galluogwyr sydd eu hangen ar gyfer cymunedau ymarfer llwyddiannus;
- profiad o ymgysylltu ag ymarfer proffesiynol myfyriol;
- profiad o ymchwil weithredu.
- ffeirir ymgeiswyr sydd â rhywfaint o brofiad o astudio ar lefel ôl-raddedig, mewn maes sy'n ymwneud â materion cymdeithasol cymhleth ac ymarfer proffesiynol myfyriol yn ddelfrydol.

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	4
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	6

Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei chymeradwyo eto, ac felly, mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.